Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Department for Environment, Ynni and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Mike.Hedges@cynulliad.cymru

9 Ionawr 2019

Annwyl Mike,

Hoffwn dynnu eich sylw at fater gweithdrefnol.

Yn unol ag adran 8 o Ddeddf Plâu 1954, mae trapiau sbring wedi'u gwahardd yng Nghymru oni bai eu bod wedi'u cymeradwyo gan Orchymyn.

Cafodd Gorchmynion Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2010 a 2012 eu gwneud o dan adran 8(3) a (7) o Ddeddf Plâu 1954 ac yn unol â'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Mae Gorchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2019 wedi'i wneud o dan yr un pwerau, ond nid yw'n ddarostyngedig i weithdrefn.

Mae'r ddarpariaeth sy'n llywio'r weithdrefn ar gyfer y Gorchmynion yn adran 8(8). O ddadansoddi'r ddarpariaeth hon gwelir mai dim ond Gorchmynion a wneir o dan adran 8(5) sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Ymddengys fod yr holl Orchmynion y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u gwneud o dan adran 8(3) a (7) wedi'u gwneud heb weithdrefn. Mae'n anghyson fod y Senedd a'r Cynulliad Cenedlaethol yn cymhwyso gwahanol weithdrefnau i'r un pwerau a bernir mai'r peth mwyaf priodol i'w wneud yw gwaredu'r anghysondeb hwn.

Amgaeaf gopi o Orchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2019 fel y gallwch gyfeirio ato.  Mae'r Gorchymyn wedi'i wneud a bydd yn dod i rym ar 1 Chwefror. Gan nad yw'r Gorchymyn yn ddarostyngedig i weithdrefn ni chaiff ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac ni fydd memorandwm esboniadol ar ei gyfer.

Hoffwn ymddiheuro am y ffaith nad oes sylw wedi'i roi i'r mater hwn ynghynt. Fodd bynnag, rwy'n gobeithio y byddwch yn derbyn bod gweithdrefn fwy beichus wedi'i weithredu yn sgil camgymeriad diniwed.

Cofion



**Lesley Griffiths**
Gweinidog yr Amgylchedd  a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Copi at: Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.